S4C /

**Swyddog Materion Busnes (Dros Dro)**

**Mae sgiliau Cymraeg yn hanfodol ar gyfer y rôl hon**

## Pam ymuno â S4C?

Yn S4C, rydyn ni'n angerddol am greu amgylchedd gwaith positif, egnïol a chynhwysol sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd craidd:

*Ar Dy Orau, Balch o S4C, Dathlu pawb, Cer Amdani.*

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ymuno â'n tîm wrth i ni symud ymlaen i weithredu ar strategaeth 2030. Rydyn ni'n chwilio am unigolyn trefnus, dibynadwy, gweithgar a brwdfrydig sy'n byw ein gwerthoedd craidd i ymuno â'n tîm Materion Busnes dros dro.

## Trosolwg y Swydd

Byddwch yn rhan allweddol o dîm sy'n gweithredu'n ymarferol, gan ddarparu cefnogaeth i'r tîm gomisiynu yn effeithiol ar gyfer yr holl gynnwys aml-lwyfan sy'n ymddangos ar wasanaethau S4C bob blwyddyn. Byddwch yn gweithio'n agos gyda'r Tîm Materion Busnes, cwmnïoedd cynhyrchu a'r adran gyfreithiol i allu gweithredu rhaglen o syniad i gael ei ddarlledu fel rhaglen ar sawl gwahanol blatfform.

Er rôl dros dro, mae hyn yn rôl sy'n hynod bwysig ac yn weladwy iawn gyda chwmnïoedd cynhyrchu a'r diwydiant darlledu yng Nghymru. Bydd gofyn i chi feithrin perthnasoedd cryf a dibynadwy ar draws y diwylliant i allu cydweithio yn effeithiol a gweithredu ar syniadau.

## Beth fyddwch chi'n ei wneud?

Fel Swyddog Materion Busnes dros dro, byddwch chi'n:

- Aelod o'r tîm Materion Busnes, gweithio'n agos gyda'r Arweinydd Materion Busnes, Swyddogion eraill a'r Gweinyddwr Hawliau.
- Cydweithio yn agos gyda chydweithwyr ar draws adrannau er mwyn sicrhau bod unrhyw gynnwys sy'n cael ei gomisiynu gan S4C yn cael ei lywio a'i weinyddu'n effeithiol o'r syniad cychwynnol drwy'r broses gomisiynu a chytundebu hyd at ddarlledu ac adolygu.

## Cefnogaeth i S4C a'r sector darlledu

- Pwynt cyswllt pwysig rhwng comisiynwyr S4C a'r cwmnïau cynhyrchu gan sicrhau bod brîff golygyddol a busnes ar gyfer pob rhaglen neu gynnwys arall yn cael eu cwblhau'n gywir er mwyn adlewyrchu'r cytundeb rhwng S4C a'r cwmni cynhyrchu.
- Sicrhau bod yr holl wybodaeth am y prosiectau ar gael i'r comisiynydd perthnasol ac i dimoedd ac adrannau eraill S4C ar hyd y daith.

## Cytundebu

- Darparu cytundebau i'r cwmnïau cynhyrchu gan gynnwys trwyddedau a chytundebau safonol yn unol â'r Telerau Masnach gan drafod a sicrhau'r cliriadau sydd eu hangen ar S4C. Bydd angen cydweithio'n effeithiol gyda'r Tîm Cyfreithiol o dro i dro ar gytundebau mwy cymhleth.
- Lle'n briodol, bydd angen paratoi dogfennau a chydlynu prosesau tendr neu gystadleuaeth mewn cydweithrediad gyda'r Tîm Cyfreithiol.

